**CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod rhithwir y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 12 Gorffennaf 2022 am 4.30pm.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol - Aelodau oedd yn bresennol:-**

Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cynghorydd A O Rogers
Y Cynghorydd G Holmes
Y Cynghorydd S Powderhill
Y Cynghorydd K Johnson
Y Cynghorydd L Ellis

**Swyddogion yn bresennol:-**

Ms R Hope, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr M Owen, Rheolwr Trwyddedu Cynorthwyol

**86 Ymddiheuriadau**

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorwyr D. Williams ac S. Bradwick.

**87 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**88 Deddf Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn**

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n trafod y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

**89 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2022 yn rhai cywir.

**90 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth

Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**91 Trafod y ceisiadau canlynol ar gyfer Trwyddedu a/neu Gofrestru:**

Rhoddodd y Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion i'r Pwyllgor am drwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod rhwng 17 Ionawr 2022 a 26 Mehefin 2022.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

**92 Crynodeb Gorfodi (Gan gynnwys Data Apeliadau/Erlyniadau) ar gyfer y cyfnod: 17 Ionawr 2022 i 26 Mehefin 2022**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod rhwng 17 Ionawr 2022 a 26 Mehefin 2022.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**93 Crynodeb o'r Trwyddedau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth awdurdod dirprwyedig ar gyfer y cyfnod rhwng 17 Ionawr 2022 a 26 Mehefin 2022.**

Rhannodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio adroddiad â'r Aelodau'n amlinellu'r Trwyddedau a/neu Gofrestriadau a gafodd eu rhoi o dan ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod rhwng 17 Ionawr 2022 a 26 Mehefin 2022.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**94 Materion Brys**

Doedd dim mater arall i'w drafod.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.51pm**

**Y CYNGHORYDD A FOX**
**CADEIRYDD.**